

Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Monitro Annibynnol yng Ngharchar Berwyn EF

**Ar gyfer blwyddyn adrodd
1 Mawrth 2023 - 29 Chwefror 2024**

Cyhoeddwyd Awst 2024

Cynnwys

Adrannau Rhagarweiniol 1 – 3

Tudalen

1. Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol
2. Disgrifiad o'r sefydliad
3. Pwyntiau allweddol

3
4
5

Adrannau Tystiolaeth 4 – 7

4. Diogelwch
5. Triniaeth deg a dyngarol
6. Iechyd a lles
7. Cynnydd ac ailsefydlu

8
10
14
16

Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol

Ystadegau'r Bwrdd
Ceisiadau i'r BMA

19
19

Cyhoeddir pob adroddiad blynyddol y Bwrdd Monitro Annibynnol ar
www.imb.org.uk

Adrannau rhagarweiniol 1 – 3

1. Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol

Mae Deddf Carchardai 1952 yn mynnu bod pob carchar yn cael ei fonitro gan Fwrdd annibynnol, wedi'i benodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol, o blith aelodau o'r gymuned lle mae'r carchar wedi'i leoli.

O dan y Fframwaith Monitro Cenedlaethol y cytunwyd arno gyda gweinidogion, mae'n ofynnol i'r Bwrdd wneud y canlynol:

- bodloni ei hun bod y rhai yn nalfa'r carchar yn cael eu trin yn ddyngarol ac yn gyfiawn, a bod y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau yn amrywiol ac yn ddigonol
- rhoi gwybod yn brydlon i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu i unrhyw swyddog y mae awdurdod wedi'i ddirprwyo iddo fel y mae'n ei ystyried yn briodol, am unrhyw bryder sydd ganddo
- cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ba mor dda y mae'r carchar wedi bodloni'r safonau a'r gofynion a osodwyd arno, a pha effaith mae'r rhain yn eu cael ar y rhai yn ei ddalfa.

I alluogi'r Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol, mae gan ei aelodau hawl mynediad at bob carcharor a phob rhan o'r carchar, ac at gofnodion y carchar.

Mae'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a math arall o Driniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT) yn gytuniad hawliau dynol rhyngwladol sydd wedi'i lunio i gryfhau gwarchodaeth i bobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid. Mae'r protocol yn cydnabod bod pobl o'r fath yn arbennig o agored i niwed ac yn ceisio eu hatal rhag cael eu trin yn wael drwy sefydlu system o ymweliadau neu arolygon ar gyfer pob dalffa. Mae OPCAT yn mynnu bod Gwladwriaethau'n dynodi Mecanwaith Atal Cenedlaethol i gynnal ymweliadau â mannau sy'n cadw pobl yn gaeth, i fonitro'r driniaeth a'r amodau ar gyfer ceiswyr lloches ac i wneud argymhellion i atal pobl rhag cael eu trin yn wael. Mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn rhan o Fecanweithiau Atal Cenedlaethol y Deyrnas Unedig.

2. Disgrifiad o'r sefydliad

Mae Carchar Berwyn EF wedi'i leoli ar Stad Ddiwydiannol Wrecsam yng Ngogledd Cymru. Fe'i rhagwelwyd fel carchar derbyn, adsefydlu a hyfforddi categori C, ond ar hyn o bryd mae hefyd yn cynnwys carcharorion remand a chategori B. Mae'n garchar modern, gyda chapasiti gweithredu o 2,000¹. Mae'r carchar yn cynnwys tri phrif dŷ: Alwen, Bala a Ceiriog, ac Ogwen, uned gofal a gwahanu (CSU) sy'n gallu dal 21 o garcharorion. Rhennir pob tŷ yn wyth cymuned. Ar gyfartaledd, mae 30% o gelloedd yn ddeiliadaeth sengl a 70% yn ddeiliadaeth ddwbl. Cynlluniwyd y celloedd deiliadaeth ddwbl yn y fath fodd.

¹ Mae'r ffigurau a gynhwysir yn yr adroddiad hwn yn wybodaeth reoli leol. Maent yn adlewyrchu sefyllfa'r carchar ar adeg adrodd, ond gallant newid yn dilyn dilysu pellach ac felly efallai na fyddant bob amser yn cyfateb ag Ystadegau Swyddogol a gyhoeddir yn ddiweddarach gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

3. Pwyntiau allweddol

Cefndir

Mae'r data'n dangos y canlynol: Mae gan 40% o swyddogion band 3 lai na 12 mis o wasanaeth; ac mae gan 30% o swyddogion graddau cymorth band 2 (OSGs) lai na 12 mis o wasanaeth.

Cyflawni cyfundrefn yw polisi'r Llywodraethwr newydd, lle mae'r weledigaeth a'r blaenoriaethau ar gyfer staff, carcharorion a phartneriaid fel a ganlyn:

- Creu amgylchedd diogel a gweddus i bawb sy'n gweithio ac yn byw yma.
- Galluogi cyflogaeth a llety i bawb ar ôl eu rhyddhau.
- Darparu hyfforddiant, datblygiad a chefnogaeth o ansawdd da i bawb.
- Rhoi gweithgaredd ystyrlon a phwrpasol i bawb, gan alluogi pobl i fod ar eu gorau.
- Creu a chadw perthnasoedd cynhyrchiol o ansawdd da.

Mae'r broses o gyflawni'r gyfundrefn gyhoeddedig yn gwella'n raddol, yn unol â lefelau staffio uwch. Dros y cyfnod adrodd, mae nifer y preswylwyr yn y Berwyn wedi cynyddu'n sylweddol, o 1823 yn 2023 i 2000 yn 2024. Mae'r gwelliant yn y drefn gyflawni yn cael ei gefnogi gan y dystiolaeth bod nifer y ceisiadau (sylwadau ysgrifenedig carcharorion) a gyflwynwyd i'r IMB ynglŷn â gweithgaredd pwrpasol, gan gynnwys addysg, gwaith, hyfforddiant ac amser y tu allan i'r gell, wedi aros yr un fath, sef 20.

Materion pwysig yn ystod y cyfnod adrodd:

- Gwelliant graddol yn y drefn, y gweithgareddau sydd ar gael a chadw staff.
- Gadael cyfnod Covid.
- Newid pwrpas.
- Dylai fod wedi'i staffio'n llawn erbyn mis Ebrill 2024, felly gall gyflawni fel y cynlluniwyd.
- Mae niferoedd carcharorion wedi setlo ar 2,000.
- Mae cwynion am fwyd wedi codi o 8 yn 2023 i 16 yn 2024.
- Mae cwynion am feddyginiaeth wedi codi o 43 yn 2023 i 44 yn 2024.
- Dylid edrych ar yr holl ffigurau uchod yn erbyn cynnydd yn y boblogaeth, o 1,823 yn 2023 i 2,000 yn 2024.
- Yn ystod y cyfnod adrodd, ymddeolodd y Llywodraethwr Nick Leader a chymerwyd ei le gan Becky Hayward. Mae gan y Bwrdd berthynas waith gadarnhaol iawn gyda'r Llywodraethwr newydd (fel yr oedd gyda'r un blaenorol), y rheolwyr a'r staff, ac mae'r Llywodraethwr yn mynychu ein cyfarfodydd Bwrdd misol. Mae'r berthynas hon yn allweddol i waith llwyddiannus y Bwrdd.

Meysydd o bryder i'r Bwrdd:

- Staff dibrofiad.
- Yr amser mae'n ei gymryd i gywiro pethau.

- Gwresogi: gweler nodiadau adran 3 i'r Gwasanaeth Carchardai.

3.1 Prif ganfyddiadau

Diogelwch

- Ym mhrofiad y Bwrdd, mae'r carchar yn ddiogel. Fodd bynnag, mae poblogaeth y carchardai wedi newid ers y cyfnod adrodd diwethaf, mae'r newid yn gynydd yn nifer y carcharorion sy'n dod o Loegr drwy ailgyfeiriadau llys y tu allan i'r ardal.
- Mae digwyddiadau o drais a hunan-niwed yn cael eu cofnodi a'u hymchwilio ar lefel Llywodraethwyr, yn unol â chanllawiau'r Gwasanaeth Carchardai ar ddiogelwch carcharorion.
- Mae adleoli sylweddol: yn 2023, derbyniwyd 2,904 o garcharorion yn y Berwyn, gan gynnwys llawer o garcharorion remánd a oedd wedi bod mewn hyd at naw carchar arall yn ystod eu cyfnod remánd. Roedd nifer o garcharorion yn agored i niwed oherwydd aflonyddwch, gorbryder noson gyntaf, ac oedi wrth dderbyn PINau er mwyn cysylltu â'u teuluoedd. O ganlyniad, roedd achosion o hunan-niwed yn gymharol uchel.

Triniaeth deg a thrugarog

- Mae'r gofal a ddarperir gan y gaplaniaeth yn gynhwysfawr.
- Mae cyfleoedd addysg a hyfforddiant lluosog.
- Mae eiddo, derbynfa a bwyd yn cael eu rheoli'n dda.

Iechyd a lles

- Mae darpariaeth gofal iechyd wedi gwella i bwynt lle gellir ei gymharu â'r ddarpariaeth yn y gymuned.
- Mae ymarfer corff a gweithgareddau yn cyfrannu at les carcharorion.

Dilyniant ac ailsefydlu

- Mae amrywiaeth o gyfleusterau addysg a hyfforddiant, gyda llawer ohonynt yn dod â chymwysterau. Mae cyfleoedd hefyd i weithio i gwmnïau adeiladu allanol.
- Rheolwyd ailsefydlu'n dda, gyda ffigurau uwch na'r cyfartaledd ar gyfer cyflogaeth adeg rhyddhau. Fodd bynnag, gyda chynllun rhyddhau cynnar y Llywodraeth, mae hyn wedi dod yn fwy anodd.

3.2 Prif feysydd i'w datblygu

I'R GWEINIDOG

- Mae'r Bwrdd yn parhau i bryderu am yr amseroedd aros i ddynion â phroblemau iechyd meddwl difrifol neu anhwylderau personoliaeth gael eu trosglwyddo i uned ddiogel. Ceir tystiolaeth o hyn gan 26 o ddynion yn cael eu

trosglwyddo yn 2022-2023 o'i gymharu â 36 yn 2023-2024. I waethygu'r sefyllfa hon, gall gymryd misoedd lawer i drosglwyddo i uned ddiogel. Sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu mynd i'r afael â'r mater difrifol iawn hwn?

I'R GWASANAETH CARCHARDAI

- Mae'r Bwrdd yn parhau i fod yn bryderus ynghylch y nifer cynyddol o garcharorion â phroblemau iechyd meddwl difrifol yn yr uned wahanu. Mae mwy o nyrsys iechyd meddwl wedi'u dyrannu i'r maes hwn, ond fesul awr mae'n rhaid i staff yn yr uned reoli'r sefyllfaoedd. Ni roddir unrhyw hyfforddiant penodol i staff ar sut i ymdrin â'r problemau hyn. Mae'r Bwrdd o'r farn y byddai hyfforddiant ychwanegol wedi'i dargedu yn briodol. A yw'r Gwasanaeth Carchardai yn cytuno ag argymhelliad y Bwrdd? Ac, os felly, pa gamau y bydd yn eu cymryd i wneud i hyn ddigwydd?
- Rydym wedi adrodd dros nifer o flynyddoedd nad yw'r system wresogi wedi bod yn addas i'r pwrpas. Mae ein monitro, yn ogystal â cheisiadau a dderbyniwyd gan ddynion, yn dangos bod gwresogi yn y celloedd yn annigonol. Mae bellach yn dda cofnodi bod y system wresogi wedi'i hadnewyddu a byddwn yn cofnodi unrhyw welliant yn y blynyddoedd i ddod.
- Bu problem ddifrifol gyda phaent yn pilio oddi ar y waliau mewn celloedd. Dechreuwyd rhaglen adnewyddu ar yr esgyll, gyda chynhwysedd o 88 o gelloedd yn cael eu tynnu allan o ddefnydd ar y tro. Fodd bynnag, mae hyn wedi'i atal oherwydd y cynnydd ym mhoblogaeth y carchardai, sy'n golygu bod angen y capasiti. Mae nifer fach, pedwar ar y tro, yn cael eu hadnewyddu. O ystyried maint y broblem, mae hyn yn annigonol. Beth fydd y Gwasanaeth Carchardai yn ei wneud i fynd i'r afael â'r mater hwn?

I'R LLYWODRAETHWR

- Yn ystod ein monitro, fe wnaethom gofnodi llawer o achosion o ddynion nad oeddent yn mynychu apwyntiadau meddygol. Mae'r Bwrdd yn argymhell rhoi mesurau ar waith i wella'n sylweddol y nifer sy'n manteisio ar benodiadau mewnol.
- Unwaith eto, yn ystod ein gwaith monitro, fe wnaethom gofnodi llawer o achosion lle nad oedd dynion yn gwybod bod ganddynt weithiwr allweddol. Sut bydd y Llywodraethwr yn gwella'r sefyllfa?

3.3 Ymateb i'r adroddiad diwethaf

Mater wedi'i godi	Ymateb a roddwyd	Cynnydd
Meddyginiaeth	Dim newid	Dim
Hyfforddiant dementia	Parhau'n Broblem	Dim
Trosglwyddiadau y tu allan i'r ardal	Parhau'n Broblem	Dim

Adrannau tystiolaeth 4 – 7

4. Diogelwch

4.1 Derbyn a sefydlu

Mae'r dderbynfa'n lân, yn olau ac wedi'i threfnu'n dda. Mae swyddogion yn paratoi ffeiliau ymlaen llaw ar gyfer carcharorion a ddisgwylir. Maent yn ymgysylltu â phob carcharor yn briodol, yn cynnig cyngor ac yn gweini bwyd. Mae opsiynau ar gyfer gofynion dietegol neu ddiwylliannol, ac mae'r rhain ar droli wedi'i gynhesu i'r rhai sy'n cyrraedd yn hwyr. Mae swyddogion yn rhoi pecyn ffreutur a llyfr i bob carcharor, fel bod ganddyn nhw rywbeth i'w ddarllen. Mae pob carcharor yn cael ei sganio, gan ddefnyddio'r sganiwr corff, yn unol â'r asesiad risg y cytunwyd arno yn y pwyllgor diogelwch.

Mae cynnydd yn y gofrestr yn golygu ei bod yn anoddach cartrefu rhai carcharorion ar wahân – nid ydynt yn hysbys i staff carchardai, gan eu bod bellach yn dod o Lerpwl, Manceinion a Birmingham. Mae celloedd yn cael eu dyrannu ar y cychwyn, ond ar hyn o bryd mae hyn yn fwy cymhleth oherwydd y nifer cynyddol o aelodau grŵp troseddu cyfundrefnol (OCG).

4.2 Hunanladdiad a hunan-niweidio, marwolaethau yn y ddalfa

Mae achosion o hunan-niweidio wedi bod tua 110 y mis dros y cyfnod adrodd. Mae pob digwyddiad yn cael ei ymchwilio'n drylwyr a'i drafod mewn cyfarfodydd uwch reolwyr a'r grŵp carcharu mwy diogel, sy'n cael ei arsylwi gan y Bwrdd hefyd. Mae achosion yn bennaf yn brotestiadau a hunan-niweidio gan unigolion â salwch meddwl, sy'n cyfrif am y mwyafrif o'r digwyddiadau. Roedd un farwolaeth yn y ddalfa yn ystod y cyfnod adrodd, mae'n debyg o orddos cyffuriau. Mae'r digwyddiad yn dal i gael ei ymchwilio.

4.3 Trais a lleihau trais, hunan-ynysu

Nid yw'r gwaith papur ar gyfer dyfarniadau bob amser yn cael ei gwblhau'n gywir, felly mae'n rhaid gwrthod achosion gan fod y gwaith papur yn gywir ond wedi'i gyhoeddi'n anghywir. Mae canllawiau a hyfforddiant newydd ar asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT, yr oedd 737 ohonynt) wedi'u darparu, ond mae hon yn broses ddysgu hir ar gyfer swyddogion dibrofiad. Nid yw digwyddiadau o drais bob amser yn cael eu hadrodd yn gywir. Anfonir nifer o nodiadau atgoffa at staff i gofnodi digwyddiadau yn gyflym ac yn gywir. Nawr bod y sefydliad bron yn llawn wedi'i staffio gyda gwell cyfraddau cadw staff, bydd y Bwrdd yn monitro cynnydd. Mae cynlluniau her, cymorth ac ymyrraeth (CSIPau, yr oedd 310 ohonynt), a ddefnyddir i gefnogi a rheoli carcharorion sy'n peri risg uwch o drais, yn cael eu cadw ar yr esgyll ac yn gyffredinol maent wedi'u cwblhau mewn modd amserol.

Yn ystod y cyfnod dan sylw, cofnodwyd 558 o ymosodiadau rhwng carcharorion a 173 o ymosodiadau carcharor ar staff..

4.4 Defnydd o rym

Dangosodd y cyfnod adrodd gynnydd cyson yn y defnydd o ddigwyddiadau grym (UoF) bron bob mis o gymharu â 2022, gyda dau uchafbwynt difrifol, ym mis Mawrth a mis Mehefin. Roedd nifer y carcharorion unigol a oedd yn gysylltiedig ag UoF yn 2023 yn 741, cynnydd sylweddol o'r 546 yn 2022. Fodd bynnag, mae'r boblogaeth

wedi cynyddu, sy'n golygu bod y cyfraddau fesul 100 o garcharorion wedi aros yr un fath yn fras. Defnyddiwyd batonau mewn 36 digwyddiad. Ymchwilir i unrhyw ddigwyddiadau lle mae baton yn taro gan dîm UoF, trwy ddatganiadau a theledu cylch cyfng aamera fideo a wisgir ar y corff ar bob achlysur pan dynnir y baton yn ogystal â phan gaiff ei ddefnyddio. Defnyddir ffilm BWVC i bennu cywirdeb yr adroddiad ac a fu taro mewn gwirionedd. Os mai dyma'r achos, cwblheir log penderfyniadau a chedwir y ffilm. Lleihawyd defnydd amhriodol o rym dros y cyfnod adrodd.

Tynnwyd PAVA (chwistrell analluogi) 16 o weithiau yn y cyfnod (16 dangosiad gydag 8 yn arwain at ddefnyddio'r analluogydd). Mae pob defnydd o PAVA yn cael ei adolygu trwy log penderfyniadau ac yn cael ei weld yn allanol gan yr arweinydd diogelwch rhanbarthol, a fydd yn codi unrhyw bryderon, os oes angen.

Mae data bellach yn cael ei gasglu ar ôl-drafodaeth carcharorion ar ôl digwyddiad oherwydd bod cyfraddau'n isel, yn bennaf oherwydd goruchwyliaeth gan reolwyr: ym mis Chwefror 2024, roedd 43 o ymatebion ar gyfer 121 o ddigwyddiadau, cyfradd ddychwelyd o 35.54%. Mae uwch swyddogion tai neu reolwyr cymunedol yn gyfrifol am fynd ar drywydd ôl-drafodaeth. Roedd ôl-drafodaeth staff hefyd yn isel ym mis Chwefror: 41 o'r 121 digwyddiad, neu 33.88%.

4.5 Atal eitemau anghyfreithlon

Mae pob carcharor yn cael ei sganio trwy sganiwr corff wrth gyrraedd ac weithiau mae cŵn chwilio goddefol yn bresennol. Bu achosion o ddarganfod trosglwyddiadau yn y ganolfan ymwelwyr, gyda rhai ohonynt wedi arwain at erlyniadau. Mae nifer yr ymgeision i drosglwyddo yn cynyddu, ond mae'n bosibl bod hyn oherwydd rhwydi gwrth-drôn a chmau cyflymach i selio ffenestri sydd wedi torri i atal dronau rhag darparu cyffuriau anghyfreithlon. Mae'r holl bost di-reol 39 (gohebiaeth gyfreithiol) yn cael ei sganio. Mae staff a chwn synhwyro yn chwilio celloedd.

5. Triniaeth deg a thrugarog

5.1 Llety, dillad, bwyd

Mae'r system wresogi bellach wedi'i hatgyweirio, ond er mwyn darparu ar gyfer y cynnydd yn nifer y carcharorion, mae'r gwaith o adnewyddu celloedd wedi'i leihau, gan nad yw'n bosibl cau esgyll cyfan.

Cynhaliwyd archwiliad amodau byw ym mis Chwefror 2024, gyda sgôr gymedrol, sy'n golygu bod y sefydliad yn cydymffurfio i raddau helaeth â'r safonau amodau byw disgwyledig. Bydd y Bwrdd yn parhau i fonitro hyn.

Ym mis Tachwedd 2023, cododd y Bwrdd fater glendid y gwasanaethau gweini. Ymatebodd rheolwyr Berwyn yn dda a chynhaliwyd archwiliad gan y rheolwr arlwygo rhanbarthol, a gynhyrchodd rai canfyddiadau cadarnhaol a rhai negyddol. Mae aelodau'r Bwrdd yn samplu'r bwyd sydd ar gael yn y mannau gweini ac yn ei gael yn flasus.

Mae'r hwb lles bellach yn weithredol. Mae'n darparu bwyd o ansawdd da a gall staff, y Bwrdd a charcharorion dethol a'u teuluoedd ei ddefnyddio. Derbyniodd y cinio Nadolig ganmolïaeth. Ychydig o gwynion a gaiff y Bwrdd am fwyd.

5.2 Gwahanu

Mae'r uned gofal a gwahanu, neu CSU, Ogwen, bellach yn llawn yn rheolaidd. Mae'r Bwrdd wedi codi pryderon am oedi wrth drosglwyddo i unedau diogel. Mae'r Cadeirydd wedi amlygu hyn yn adran 3.2.

Mae angen gwneud mwy o waith ar ddyfarniadau. Nid yw staff yn siŵr o hyd sut i'w cynnal a gallant fod yn ansicr ynghylch pa gyhuddiadau y dylid eu cofnodi, felly mae'n rhaid rhoi'r gorau i achosion. Nid yw swyddogion yn cyflwyno gwybodaeth ar amser, sy'n golygu nad oes gan Ogwen amser i'w prosesu. Mae hyfforddiant yn cael ei roi, ond mae angen mwy. Mae Ogwen yn cael ei chynnal yn dda, gyda staff profiadol.

Mae'r Bwrdd yn arsylwi dyfarniadau ac adolygiadau GOoD (trefn neu ddisgyblaeth dda - lle mae'r carchar yn penderfynu a ddylai'r carcharor aros ar wahân), sy'n cael eu trin â chydymdeimlad.

5.3 Perthnasoedd staff a charcharorion, gweithwyr allweddol

Mae'r Bwrdd yn nodi bod llawer o swyddogion yn dangos ymrwymiad ac empathi yn eu gwaith.

Mae'r sefyllfa staffio wedi gwella'n fawr, ond erbyn Ionawr 2024 roedd gan dros 40% o swyddogion band 3 lai na 12 mis o wasanaeth. Mae hyfforddiant yn cael ei ddarparu, ond mae angen gwneud mwy. Mae hyn wedi arwain at fethiannau i gyflawni tasgau amrywiol yn gywir, megis adrodd yn brydlon am ddigwyddiadau, troi camerau fideo a wisgir ar y corff (BWVCs) ymlaen a chwblhau dogfennau dyfarnu yn gywir. Mae angen mwy o fentoriaid ar staff newydd. I gydnabod y broblem hon, mae mwy o swyddogion yn helpu gyda gwaith papur dyfarnu.

Mae swyddog datblygu bwrdd yr IMB (BDO) yn mynychu hyfforddiant staff cychwynnol ac yn rhoi cyflwyniad ar rôl y Bwrdd.

Bu cynnydd llwyddiannus mewn capasiti i 2,000 o leoedd ar ddiwedd 2023, a gostyngiad yn y gyfradd o ymddiswyddiadau swyddogion carchar Band 3 i 5, o 16.69% ym mis Ebrill 2023 i 13.29% ym mis Chwefror 2024.

Er bod llawer o garcharorion yn gwybod pwy yw eu gweithwyr allweddol, dywed eraill nad ydynt, hyd yn oed pan fydd NOMIS (gwasanaeth gwybodaeth rheoli troseddwyd cenedlaethol) yn dangos eu bod wedi cyfarfod. Weithiau, nid yw gweithwyr allweddol yn dogfennu eu bod wedi siarad â charcharorion, felly nid ydynt yn ymwybodol eu bod wedi cwrdd â nhw. Mae yna broblem eglurder, sy'n berthnasol i garcharorion a staff. Bydd strategaeth gweithwyr allweddol newydd yn cael ei chyflwyno ym mis Mehefin 2024.

5.4 Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mynychir y cyfarfodydd cydraddoldeb misol gan yr arweinwyr ar gyfer pob nodwedd warchodedig (mae'r rhain yn cynnwys hil, crefydd, rhyw, ailbennu rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol, y mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn eu herbyn), yn ogystal ag ar gyfer carcharorion sy'n wladolion tramor, y rhai o'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, y rhai sy'n gadael gofal a charcharorion iaith a diwylliant Cymraeg. Mae tri charcharor yn mynychu ac yn cymryd rhan. Mae pob cyfarfod yn derbyn diweddariadau rheolaidd ac yn nodi ac yn mynd ar drywydd materion a chmau gweithredu angenrheidiol.

Mae adain yr oedolion ifanc wedi'i therfynu, ers i lawer mwy o bobl ifanc 18-25 oed ddod i mewn i'r carchar nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Mae staff yn defnyddio pecyn pwrpasol gan yr elusen, Adult Learning Wales (darparwr addysg). Ym mis Rhagfyr 2023, roedd 259 a 373 yn y grwpiau oedran 18-25 a 26-30, yn y drefn honno, cyfran sylweddol o gyfanswm poblogaeth y carchardai.

Mae dynion sydd â phrofiad o ofal yn parhau i gael eu cefnogi gan grwpiau bach o fforymau misol rheolwyr troseddwyd carchar (POMs) a chalendr o weithgareddau 12 mis. Mae rhai yn anelu at gael gwaith 'profiad byw' yn y sector elusennol ar ôl eu rhyddhau, i gefnogi eraill yn eu sefyllfa.

Bu gwelliannau i garcharorion trawsryweddol yn y dderbynfaf, gyda phecyn derbyn a dillad priodol. Dywed yr arweinydd trawsryweddol fod y carcharorion eu hunain yn aml yn helpu ac yn dysgu'r staff sut i ymateb iddynt.

Ym mis Rhagfyr 2023, roedd 46 o garcharorion sy'n wladolion tramor yn Berwyn, y mwyafrif (34) ar un adain. Mae'r grŵp yn hunangynhaliol i raddau helaeth, ac mae anawsterau gyda bwyd wedi lleihau. Mae The Big Word, gwasanaeth cyfieithu, ar gael i bob carcharor. Mae yna hefyd 22 o garcharorion cenedlaethol Gwyddelig. Mae llawlyfr wedi'i gynhyrchu ar gyfer carcharorion sy'n wladolion tramor.

Mae cyfleoedd cyflogaeth ac addysg ar gyfer carcharorion du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu monitro'n agos. O'r 295 o ddynion sy'n rhan o'r garfan hon, mae 75% yn gyflogedig neu mewn gweithgaredd pwrpasol ac mae'r rhesymau dros y rhai nad ydynt wedi'u cynnwys neu wedi eu hallgáu'n weithredol yn cael eu hymchwilio a'u hadrodd. Mae poblogaeth gyffredinol Berwyn yn gyson tua 85% gwyn Prydeinig.

Mae digwyddiadau a dyddiau nodedig yn cael eu dathlu, fel Mis Hanes Pobl Dduon, Ramadan a Mis Sipsiwn, Roma a Theithwyr, er enghraifft, yn ogystal â digwyddiadau ar gyfer y gymuned LHDTTC+.

Roedd cyfanswm o 283 o Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm (ACCTs) yn ystod y flwyddyn adrodd. Roedd y rhan fwyaf yn ymwneud â hil, crefydd/cred, anabledd a chyfeiriadedd rhywiol. Cododd nifer y Ffurflenni Adrodd am Ddigwyddiadau Gwahaniaethu (DIRFs) (310) yn ystod cyfnod yr adroddiad.

5.5 Ffydd a chefnogaeth fugeiliol

Mae BDO y Bwrdd yn mynychu hyfforddiant mentoriaid cymheiriaid.

Mae 14 o staff cyflogedig yn y gaplaniaeth a mwy na 35 o wirfoddolwyr. Mae'r gaplaniaeth wedi'i threfnu'n dda ac yn cael ei pharchu gan garcharorion a staff. Hwylusir presenoldeb aelodau agos o'r teulu mewn angladdau, pan fo'n bosibl, ac mae staff y gaplaniaeth yn gweithredu fel cynghorwyr profedigaeth. Mae cynnydd wedi bod ym marwolaethau perthnasau carcharorion.

Mae dau dorwr cadwyn yn gweithio'n llawn amser yn y gaplaniaeth. Mae'r rhain yn garcharorion y gellir ymddiried ynddynt sy'n delio â cheisiadau ac yn cysylltu â Gwrandawyr (carcharorion a hyfforddwyd gan y Samariaid i gynnig cymorth emosiynol cyfrinachol i'w cyfoedion). Maen nhw'n cysylltu â phob carcharor y diwrnod cyn eu rhyddhau, i wirio bod popeth yn iawn ac nad oes ganddyn nhw ymholiadau munud olaf.

Mae'r gaplaniaeth yn gofalu am garcharorion o lawer o wahanol grefyddau: Cristnogion, Iddewig, Crynwyr, Bwdistiaid, Islam, Tystion Jehofa, Mormoniaid, Rastaffariaid a Phaganiaid. Mae gan bob un o'r grwpiau hyn wasanaethau rheolaidd. Ceir gwasanaeth Pabyddol yn y capel mawr ar fore Sadwrn, a gwasanaeth yr Eglwys Rydd ar fore Sul, yr hwn a ailadroddir yn ddiweddarach yn y bore i'r carcharorion bregus (VPs). Mynychir pob un o'r gwasanaethau hyn gan hyd at 100 o garcharorion. Wedi hynny, gweinir coffi a bisgedi, gyda chyfle i sgwrsio â chaplaniaid a staff lleig. Adeg y Nadolig a'r Pasg, mae côr o tua 20 o garcharorion. Fel arfer mae'r côr yn cael ei ffurfio dri mis cyn y perfformiad ac mae ymarferion yn wythnosol. Mae hwn yn weithgaredd y mae galw mawr amdano, ac mae'r carcharorion yn mwynhau cymryd rhan.

Mae pob carcharor yn cael ei weld (oni bai eu bod yn gwrthod) gan aelod o'r gaplaniaeth ar ddiwrnod eu derbyniad. Mae pob carcharor yn yr uned wahanu yn cael ei weld gan aelod o'r gaplaniaeth bob bore rhwng 8-9am.

5.6 Cynllun cymhelliant

Pwrpas y cynllun cymhelliant yw annog carcharorion i gydymffurfio â rheolau'r gymuned a chymryd rhan mewn gweithgareddau i gefnogi ailsefydlu. Mae'r cynllun yn gwobrwyo ymddygiad cadarnhaol, tra gellir cymryd breintiau oddi wrth y rhai sy'n ymddwyn yn wael neu'n gwrthod ymgysylltu.

Mae tair lefel i gynllun Berwyn:

- Uwch: i garcharorion sy'n arddangos ymddygiad cadarnhaol, e.e. trwy ddangos ymgysylltiad rhagweithiol a hunangymhellol â gofynion eu cynlluniau dedfryd; ymgysylltu a chydweithredu â chymffurfio y carchar trwy fynychu gweithgareddau yn ôl yr angen; dilyn cyfarwyddiadau ac arweiniad gan staff; a chydymffurfio â disgwyliadau ychwanegol rhesymol.
- Safonol: y safon ymddygiad a ddisgwylir yw cydymffurfio â'r drefn; cymryd rhan mewn gwaith allweddol a chynlluniau dedfryd; cymryd rhan mewn gweithgareddau; a chadw at reolau.
- Sylfaenol: ar gyfer carcharorion sydd wedi dangos ymrwymiad annigonol i ailsefydlu a gweithgaredd pwrpasol, neu wedi ymddwyn yn wael.

Esbonnir polisi'r cynllun cymhelliant yn ystod y cyfnod sefydlu ac mae'n cynnwys llyfryn. Mae staff yn cynorthwyo carcharorion na allant ddarllen nac ysgrifennu i ddeall a chymryd rhan yn y cynllun. Mae'r Bwrdd yn credu bod y system yn gweithredu'n deg ac effeithiol.

5.7 Cwynion

Dim ond ar ffurflenni papur y gall carcharorion wneud cwynion. Weithiau, nid oes unrhyw gwynion na ffurflenni cais ar yr adain. Mae'r Bwrdd yn codi hyn yn rheolaidd gyda rheolwyr yr adain. Mae pob cwyn a chais yn cael eu cofnodi, yn gywir ar y cyfan.

Yng nghyfarfod rheolwyr y bore, a fynychir gan y Llywodraethwr, ceir dadansoddiad o gwynion, gan gynnwys yr amser sy'n weddill a'r ffynhonnell (e.e. gweithgaredd, uned rheoli troseddwr (OMU), ac ati).

O'i arsylwadau, mae'r Bwrdd yn credu y gellid gwella cyflymder ac ansawdd ymatebion a chyfathrebu i garcharorion.

5.8 Eiddo

Mae eiddo'n cael ei storio mewn ystafell bwrpasol y tu ôl i'r dderbynfa. Mae eiddo pob carcharor yn cael ei roi mewn bocsys, ei dagio a'i roi ar silffoedd. Mae system ffeilio yn nodi eiddo pob carcharor. Mae nifer y cwynion ynghylch eiddo mewnol wedi gostwng o 59 yn 2023 i 42 yn 2024. Mae cwynion am eiddo yn mynd ar goll yn ystod y trosglwyddo wedi aros yr un fath yn fras, gyda 32 yn 2023 a 31 yn 2024. Fodd bynnag, dylid ystyried y ffigurau hyn fel gwelliant mawr, o ystyried y cynnydd yn y boblogaeth.

6. Iechyd a lles

6.1 Gofal iechyd cyffredinol

Mae'r ganolfan gofal iechyd yn lân, yn fodern ac yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda.

Nid oes darpariaeth cleifion mewnol yng Ngharchar Berwyn. Darperir gofal iechyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mynychir cyfarfod grŵp cyflawni iechyd misol gan gynrychiolwyr o Betsi Cadwaladr, fferylliaeth, gofal cymdeithasol, meddygon teulu a rheolwyr CEF Berwyn.

Oherwydd derbyniadau hwyr, dim ond gan ddefnyddio staff nos y gall y ganolfan gofal iechyd gwblhau'r broses sgrinio, gydag argaeledd cyfyngedig ar gyfer gofal iechyd i ymateb i unrhyw argyfyngau meddygol wrth iddynt godi.

6.2 Gofal iechyd corfforol

Mae lefelau staffio wedi gwella, ond nid oes unrhyw arbenigwyr deieteg na lleferydd ac iaith ar y safle, er bod gwasanaethau cymunedol ar gael pan fo angen. Mae gwasanaethau therapi yn perfformio'n dda, ac nid oes gan y Bwrdd unrhyw bryderon am amseroedd aros am apwyntiadau deintyddol, sy'n debyg i'r rhai yn y gymuned.

Roedd nifer y dynion nad oeddent yn mynychu apwyntiadau gofal iechyd wedi cynyddu i 13.2% erbyn Chwefror 2024. Mae swyddogion wedi cael eu hatgoffa i ddatgloi carcharorion mewn pryd ar gyfer eu hapwyntiadau. Mae'r mentoriaid cymheiriaid iechyd yn galw pob carcharor sydd wedi methu apwyntiad i ddarganfod pam. Mae'r adran gofal iechyd wedi cyhoeddi arolygon adborth i nodi rhesymau dros golli apwyntiadau.

Mae'r Bwrdd yn derbyn cwynion rheolaidd gan garcharorion y mae eu meddyginiaeth wedi'i derfynu. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn oherwydd bod carcharorion wedi profi'n bositif am sylweddau anghyfreithlon, ond nid ydynt yn deall hyn.

6.3 Iechyd meddwl

Mae'r Bwrdd yn pryderu am nifer y bobl sy'n aros am gyfnodau hir am drosglwyddo i unedau diogel. Mae'r unedau iechyd meddwl ac anabledd dysgu wedi'u gosod ar gofrestr risg Berwyn (cofrestr o risgiau blaenoriaeth, a drafodir gan yr uwch dîm rheoli a'i diweddarau bob mis), gan fod y gwasanaethau hyn yn brin o staff.

6.4 Gofal cymdeithasol

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, sydd â swyddfa ar y safle, yn darparu gofal cymdeithasol sy'n cyfateb i'r hyn a fyddai ar gael yn y gymuned. Mae dau weithiwr cymdeithasol ac un asesydd gofal cymdeithasol rhan-amser. Mae'r tîm asesu troseddwy yn sicrhau bod gan bawb sydd ei angen yr hawl i gymryd rhan mewn asesiad i nodi eu hanghenion.

Gall carcharorion hunan-atgyfeirio trwy Unilink, neu gallant ddefnyddio'r system ffôn fewnol. Mae eraill yn cael eu hatgyfeirio trwy deulu a gweithwyr proffesiynol. Mae'r

gweithwyr cymdeithasol yn gweld carcharorion wyneb yn wyneb ac yn monitro sut maent yn ymdopi.

Ar hyn o bryd mae dau becyn gofal wedi'u comisiynu gan dîm gofal cartref ac ailalluogi Wreccsam, i helpu gyda hylendid personol, ymolchi a gwisgo. Mae annibyniaeth a gofal personol yn cael eu hannog yn gryf, fel nad yw iechyd carcharorion yn dirywio ac i sicrhau y gallant drosglwyddo yn ôl i'r gymuned pan fo'n briodol.

Mae nifer o garcharorion yn defnyddio cadeiriau olwyn, sy'n cael eu mesur a'u cyrchu trwy'r GIG, yn ogystal â chymhorthion, offer ac addasiadau. Ar hyn o bryd, nid oes poblogaeth oedrannus fawr yn y carchar. Hoffai'r Bwrdd weld mwy o hyfforddiant dementia i staff (gweler adran 3.2). Ar hyn o bryd, mae gan rai carcharorion ddementia fasgwlaidd lefel is.

6.5 Amser allan o'r gell, trefn

Cyflawni cyfundrefn yw blaenoriaeth y Llywodraethwr ar gyfer 2024. Mae mwy o amser cymdeithasu ar yr esgyll, gyda chadeiriau cyfforddus, byrddau gwyddbwyll a byrddau pŵl. Fodd bynnag, oherwydd galwadau sydyn am hebryngwyr (ar gyfer ymweliadau ysbyty, er enghraifft), yn aml nid oes digon o swyddogion i ganiatáu amser allan o gelloedd. Bu nifer o gwynion, yn enwedig gan swyddogion a glanhawyr (carcharorion y gellir ymddiried ynddynt sy'n cymryd gwaith a gwasanaethau sy'n cyfrannu at redeg y carchar) eu bod yn cael eu cloi cyn gynted ag y bydd eu sifft yn gorffen, sy'n golygu nad oes ganddynt amser ar yr iard. Roedd hyn hefyd yn broblem yn y cyfnod adrodd blaenorol.

Mae yna rediadau parc penwythnos ac mae'r meysydd pêl-droed yn cael eu defnyddio'n rheolaidd. Mae presenoldeb yn y gampfa hefyd yn dda.

6.6 Adsefydlu cyffuriau ac alcohol

Mae tîm camddefnyddio sylweddau (SMS) mawr, sy'n darparu therapïau. Mae mentoriaid cymheiriaid iechyd meddwl ar gael ym mhob adain i roi cyngor ac arweiniad. Mae Gweithdy 11 yn uned SMS bwrpasol. Mae cyfleoedd i weithio – dosbarthu papur toiled, gwaith saer, ailgylchu deunyddiau a chryno ddisgiau, sandio, peintio, ac ati, ac ardal gampfa, canolfan goffi a llyfrgell, a barbwr. Mae'r dosbarthiadau'n helpu gyda rheoli iechyd meddwl, gan gynnwys ymwybyddiaeth o hepatitis B ac SMS. Mae nifer dda yn mynychu'r gweithdy ar y cyfan - tua 30 allan o 40. Mae pedwar mentor cymheiriaid SMS, sy'n cefnogi ac yn sgwrsio â'r carcharorion. Mae'r carcharorion yn gyffredinol yn dweud eu bod yn mwynhau bod yn y gweithdy, gan ei fod yn tynnu eu sylw oddi wrth y defnydd o gyffuriau.

6.7 Sgiliau meddal

Mae gan CEF Berwyn nifer o gyrsiau sy'n hybu sgiliau meddal. Rheolir y rhain yn y gampfa, y ganolfan les, yr uned addysg a thrwy'r elusen, Barnardo's. Maent yn cynnwys cyrsiau iechyd meddwl, cerddoriaeth, crefftau, ymarfer corff, cyrsiau galwedigaethol, ioga ac ymwybyddiaeth ofalgar. Mae system cymorth cymheiriaid gyda Gwrandawyr, mentoriaid cymheiriaid iechyd meddwl, mentoriaid cymheiriaid gofal iechyd. Gweler adrannau 5.4, 5.5, 6.5, 6.6, 7.1 a 7.4.

7. Dilyniant ac ailsefydlu

7.1 Addysg, llyfrgell

Darperir addysg gan Goleg Cambria. Mae yna ddosbarthiadau ar gelf, warysau (gydag efelychydd wagen fforch godi), byw'n annibynnol, creu podlediadau, cerddoriaeth, mathemateg, Saesneg a phêl-droed stryd; yn ogystal, mae llyfrgell. Mae rhai carcharorion yn mynychu i ennill cymwysterau, megis cymwysterau technegol trwy'r Bwrdd Arholi Cenedlaethol mewn Diogelwch ac Iechyd Galwedigaethol (NEBOSH), neu gymwysterau Cyngor Addysg Bellach y Gogledd (NCFE) mewn celf a dylunio, neu i astudio ar gyfer graddau'r Brifysgol Agored, tra bod eraill mynychu ar gyfer pleser a/neu gefnogaeth iechyd meddwl.

Yn gyffredinol, mae awyrgylch dda yn yr adeilad addysg. Mae mynychwyr y dosbarthiadau yn ymddangos yn hapus ac yn dangos agwedd a gwaith da. Ar ddiwedd y sesiwn dwy awr, mae amser i wneud posau a sgwrsio gyda'r tiwtor a'r nyrs iechyd meddwl, sy'n bresennol.

7.2 Hyfforddiant galwedigaethol, gwaith

Mae lleoedd i 747 o garcharorion yn y gweithdai, sy'n cynnwys:

- ailgylchu
- garddio (ym mis Gorffennaf 2023, enillodd CEF Berwyn dlws Windlesham am yr ardd/tir carchar gorau)
- cwrs sgaffaldiau a ail-lansiwyd ym mis Tachwedd 2023; llwyddodd pob un o'r naw a gwblhaodd y cwrs
- Gweithdy SMS
- weldio
- adeiladu tai modiwlaid

Mae cysylltiadau â chyflogwyr allanol, gan gynnwys lleoliadau rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL). Mae cyfarfod y Bwrdd Cyngori ar Gyflogaeth bob deufis ar ddydd Gwener yn cael ei gadeirio gan gyflogwr sefydledig, John Murphy Construction, sy'n helpu i gydlyn strategaeth i helpu'r rhai sy'n gadael carchar i mewn i gyflogaeth. Mynychir y digwyddiad cyflogaeth misol gan ddarpar gyflogwyr ac mae'n cynnwys y pum academi yn y carchar: adeiladu, gweithgynhyrchu, addysg bellach ac uwch, arlwy, a'r academi werdd (rheoli gwastraff ac ailgylchu).

7.3 Rheoli troseddwr, cynnydd

Mae staffio wedi gwella yn y maes hwn yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r uned rheoli troseddwr (OMU) wedi'i staffio'n llawn, ond mae cynlluniau rhyddhau trwydded dan oruchwyliaeth diwedd y ddalfa (ECSL), a gyflwynwyd ledled y wlad ar fyr rybudd, wedi cynyddu'r pwysau. Mae cyrffw cadw yn y cartref (HDC) yn brif flaenoriaeth ac yn berthnasol i garcharorion â dedfrydau rhwng 12 wythnos a phedair blynedd. Mae'r Bwrdd wedi derbyn nifer o geisiadau am y categori hwn. Mewn sesiynau galw heibio

ar yr esgyll, mae'r OMU a rheolwyr troseddwy'r sy'n garcharorion (POMs) yn cynghori carcharorion a staff sut mae'r system yn gweithio, gan nad yw cyfathrebu ysgrifenedig bob amser yn effeithiol, o ystyried problemau llythrennedd ac anawsterau dysgu. Daeth tua 1,000 o ddynion i'r Berwyn a rhyddhawyd nifer tebyg yn ystod cyfnod yr adroddiad.

Mae cwota llawn o swyddogion POMs ac mae swyddi gwag yn nhîm POM y swyddogion prawf. Mae 9.6 o swyddogion cyfwerth ag amser llawn y Gwasanaeth Prawf, lle dylai fod 17. Mae swyddogion y Gwasanaeth Prawf wedi'u secondio i'r carchar yn cynorthwyo gyda llwythi gwaith ac yn cynnal achosion, tra bod rheolwyr troseddwy'r cymunedol (COMs) yn gyfrifol am ryddhau carcharorion. Mae uned rheoli troseddwy'r y carchar yn ymgymryd â rhywfaint o waith Gwarchod y Cyhoedd (cyhoeddi hysbysiadau i garcharorion yn ymwneud â risg i blant a diffyg cyswllt, ac ati). O dan y model cymorth rheoli achosion, mae achosion risg uwch yn cael eu cynnal mewn hwb nes iddynt gyrraedd pwynt 12-18 mis o ddiwedd eu dedfrydau, pan gânt eu dyrannu i POM (tua 60 o achosion fesul POM).

Roedd ôl-groniad OASys (offeryn asesu risg) yn 29 ar ddechrau mis Chwefror 2024. Nid yw hyn yn allanolyn. Yr amserlen ar gyfer asesiad yw 12 wythnos. Mae rhai carcharorion yn cael eu trosglwyddo o garchardai eraill heb asesiad, felly gall yr amser sydd ar gael i wneud hynny fod yn llawer llai.

Ni ddigwyddodd y gostyngiad mewn remandiau a dedfrydau tymor byr a ragwelwyd. Mae'r cynllun rhyddhau cynnar 18 diwrnod yn creu pwysau ar wasanaethau prawf cymunedol, timau iechyd meddwl a gwasanaethau eraill, ac mae rhywfaint o dystiolaeth bod dynion yn cael eu galw'n ôl yn weddol gyflym.

Mae mwy na 50 o garcharorion IPP (wedi'u carcharu er mwyn diogelu'r cyhoedd) yn y Berwyn.

7.4 Cyswllt teuluol

Mae Barnardo's wedi parhau i ddatblygu'r gwasanaethau y mae'n eu darparu yn y carchar. Cynhelir diwrnod i'r teulu (sy'n dod â dynion a'u teuluoedd ynghyd y tu allan i'w hawl statudol, fel arfer mewn lleoliadau mwy anffurfiol) bob mis, pob un â thema arbennig. Mae yna hefyd dri diwrnod mabolgampau i'r teulu ym mis Gorffennaf ac Awst a dau ddiwrnod Nadolig i'r teulu, gydag anrhegion wedi'u rhoi gan Siôn Corn a'r opsiwn i bob teulu gael tynnu llun yn ei groto. Yn ogystal, mae yna hefyd glwb brecwast cyn-filwyr misol, lle mae Barnardo's ar gael i helpu gyda materion teuluol, cyswllt a chynghor ar gymorth ar ôl rhyddhau.

Cynhelir sesiynau 'Dim yn Ymweliad' ar gyfer carcharorion heb unrhyw gyswllt teuluol. Mae cyfanswm o 430 o garcharorion sydd erioed wedi cael ymweliad ac amcangyfrifir nad oes gan 1,300 gyswllt teuluol. Mae Barnardo's yn gweithredu fel cyfryngwr i alluogi carcharorion i ailsefydlu cyswllt. Er nad yw'r dynion hyn yn cael ymweliadau, mae staff Barnardo's yn eistedd gyda nhw, yn siarad neu'n chwarae gemau gyda nhw. Darperir diodydd a byrbrydau iddynt. Mae'r gwaith hwn yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan garcharorion, yn ogystal â'r carchar, gan y gall liniaru trais. Mae diwrnod 'niwroamrywiaeth' yn helpu plant na fyddent fel arfer yn gallu mynychu ymweliad oherwydd bod y niferoedd enfawr yn ei wneud yn llethol. Mae ardal chwarae yn y neuadd ymweliadau a chornel synhwyraidd ar gyfer plant sy'n teimlo wedi'u llethu.

Bellach mae protocol diogelu Berwyn ac mae Barnardo's yn darparu hyfforddiant i staff.

Mae llwyth achosion gwaith llys presennol yn 43, i lawr o 55. Mae hyn yn cefnogi dynion sy'n mynd drwy'r Llysoedd Teulu yn benodol, a gall staff Barnardo's weithredu fel Cyfaill McKenzie yn y llys i helpu carcharorion i ddeall a chyfrannu at y broses. Bu problemau gyda chyflwyno papurau llys yn hwyr.

7.5 Cynllunio ailsefydlu

Mae gweithdai a chysiau addysg amrywiol yn y Berwyn (gweler adran 7.2). Mae'r OMU a'r timau ailsefydlu wedi'u hehangu ac mae swyddi gweigion prawf yn y carchar wedi'u llenwi, er mewn rhai achosion gyda swyddogion llai cymwys.

Mae'r cynllun ECSL yn cael ei reoli'n ddigonol ar hyn o bryd, a'r prif faterion yw llai o amser i garcharorion gwblhau cymwysterau a swyddogion prawf cymunedol ddim yn darparu data mewn pryd.

Roedd cyfanswm o 23.93% o ymadawyr carchar mewn cyflogaeth chwe wythnos ar ôl rhyddhau (uwchlaw'r targed) a 43% ar ôl chwe mis. Cafodd cyfanswm o 93.39% o adawyr carchar eu cartrefu ar y noson gyntaf ar ôl eu rhyddhau (uwchlaw'r targed). Ar gyfartaledd cafodd 18% eu galw'n ôl.

Mae'r pontio yn ôl i'r gymuned yn gyffredinol i'w weld yn llyfn i drigolion Wrecsam a cheir cyswllt ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r asesiadau, y ffrydiau ariannu a'r prosesau lleoli yn fwy problematig wrth gysylltu ag awdurdodau yn Lloegr, sy'n gweithredu o dan system wahanol i awdurdodau Cymru.

Ni ddigwyddodd y gostyngiad mewn remandiau a dedfrydau tymor byr a ragwelwyd. Mae'r cynllun rhyddhau cynnar 18 diwrnod yn creu pwysau ar wasanaethau prawf cymunedol, timau iechyd meddwl a gwasanaethau eraill, ac mae rhywfaint o dystiolaeth bod dynion yn cael eu galw'n ôl yn weddol gyflym.

8. Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol

Ystadegau'r Bwrdd

Y nifer a argymhellir o aelodau'r Bwrdd	18
Nifer aelodau'r Bwrdd ar ddechrau'r cyfnod adrodd	6
Nifer aelodau'r Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd	7
Cyfanswm yr ymweliadau â'r sefydliad	402

Ceisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol

Cod	Pwnc	Blwyddyn adrodd flaenorol	Blwyddyn adrodd gyfredol
A	Llety, gan gynnwys golchi dillad, dillad, golchiadau	44	38
B	Disgyblaeth, gan gynnwys dyfarniadau, Cymhellion a Breintiau a Enillir, sancsiynau	14	21
C	Cydraddoldeb	10	9
D	Gweithgaredd pwrpasol, gan gynnwys addysg, gwaith, hyfforddiant, llyfrgell, trefn, amser allan o'r gell	20	20
E1	Llythyrau, ymweliadau, ffonau, cyfyngiadau diogelu'r cyhoedd	64	41
E2	Cyllid, gan gynnwys tâl, arian preifat, gwariant	13	17
F	Bwyd a cheginau	8	16
G	Iechyd, gan gynnwys gofal corfforol, meddyliol, cymdeithasol	43	44
H1	Eiddo o fewn y sefydliad hwn	59	42
H2	Eiddo yn ystod y trosglwyddiad neu mewn sefydliad neu leoliad arall	32	31
H3	Ffreutur, rhestr cyfleusterau, catalog(au)	17	11
I	Rheoli dedfrydau, gan gynnwys Cyrffyw Cadw yn y Cartref, rhyddhau ar drwydded dros dro, parôl, dyddiadau rhyddhau, ail-gategoreiddio	57	44
J	Pryderon staff/carcharor, gan gynnwys bwlio	78	58
K	Trosglwyddiadau	50	12
L	Amrywiol	43	58
	Cyfanswm y ceisiadau	552	462



Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan amodau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0, ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn <https://www.gov.uk/government/publications>

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn imb@justice.gov.uk